

**Rheoliadau Deddf Y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Sicr A  
Thenantiaethau Byrddaliadol Sicr, Estyn Cyfnodau Hysbysu) (Diwygio)  
(Cymru) 2020**

**Asesiad O'r Effaith Ar Hawliau Plant**

**1. Disgrifiwch ac esbonio effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

**Bydd y Rheoliadau'n cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd sy'n rhentu cartrefi gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig neu landlordiaid y sector preifat, gan gynnwys teuluoedd â phlant.**

**Nid yw'n hysbys sawl plentyn yn union sy'n byw yn y sector cymdeithasol a'r sector rhentu preifat yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd data cyfrifiad 2011 yn dangos bod aelwydydd â phlant dibynol yn cynrychioli 28% o'r holl aelwydydd, ond eu bod yn cynrychioli cyfran uwch o aelwydydd yn y sector rhentu preifat (34%). Roedd aelwydydd unig riant â phlant dibynol yn cynrychioli 8% o'r holl aelwydydd, ond yn cynrychioli cyfran uwch o aelwydydd yn y sector rhentu preifat (17%). Mae'r data poblogaeth diweddaraf yn dangos bod y sector rhentu preifat yn dod yn fath mwy a mwy poblogaidd o ddeiliadaeth, sy'n debygol o olygu bod cyfran uwch o blant yn cael eu lletya drwy'r sector rhentu preifat nag o'r blaen.**

**Yn 'A New Generational Contract: The final report of the Intergenerational Commission', mae'r Resolution Foundation yn datgan: "[in] the short term, with the private rented sector now a tenure in which millions of children are raised and in which more people will spend retirements in future, it is essential to address its poor record for security." Mae nifer y teuluoedd â phlant sy'n byw mewn llety rhent yn y DU hefyd wedi cynyddu 94% dros y degawd diwethaf, ac yn 2016-17 roedd tua hanner y plant yn cael eu geni i deuluoedd sy'n rhentu'n breifat. Mae hyn yn golygu y bydd llawer o blant yn treulio nifer o'u blynyddoedd ffurfiannol mewn llety rhent preifat.**

**Mae'r Rheoliadau'n debygol o gael effaith gadarnhaol dros dro ar blant tenantiaid (tenantiaid landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a landlordiaid y sector preifat) oherwydd bydd tenantiaid a phlant yn gallu elwa ar y canlynol:**

- rhagor o ddiogelwch a llai o deimladau o bryder, oherwydd eu bod yn gwybod na fyddant yn wynebu'r bygythiad o gael eu troi allan ar fyr rybudd
- rhagor amser i weithio gyda landlordiaid ac asiantaethau cymorth i ganfod a chytuno ar drefniadau i'w helpu i reoli eu harian yn well, ac ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent (a allai gronni o ganlyniad i'r coronafeirws)
- rhagor o amser i ddod o hyd i lety amgen addas

- llai o amhariad, o ystyried bod y pandemig eisoes wedi amharu ar drefniadau ysgol plant
- llai o risg o ddigartrefedd (ac unrhyw risg ddilynol o ddod i gysylltiad â'r feirws).

**Dylai'r Rheoliadau olygu bod llai o deuluoedd â phlant yn cael eu gorfodi i droi at lety anaddas, neu eu gorfodi i adael eu hardal a'u cymuned leol i ddod o hyd i lety addas. O ran y cyntaf o'r ddau beth hynny, mae hyn yn golygu bod plant yn osgoi'r effaith niweidiol o gael eu magu mewn llety cyfyng, gorlawn neu isel ei ansawdd. O ran yr ail o'r ddau, maen nhw'n osgoi cael eu gwahanu oddi wrth eu grwpiau ffrindiau, eu teulu estynedig, a'r rhwydweithiau cymorth a gofal plant y mae eu rhieni'n dibynnu arnynt o bosibl.** Er nad yw plant wedi bod yn yr ysgol dros y misoedd diwethaf, disgwylir (yn amodol ar y lefelau heintio) y byddant yn dychwelyd i'r ysgol fis Medi. Mae amhariad wedi bod ar eu trefniadau ysgol yn barod a byddai symud ardal ac ysgol yn golygu rhagor o amharu, a gofid o bosibl. Mewn llawer o ardaloedd, mae cyfyngiadau daearyddol ar yr addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael a gallai fod yn her cael gafael arni, a fyddai felly'n cael effaith niweidiol ar y Gymraeg. Bydd cyfnod o chwe mis yn hytrach na thri mis yn helpu i osgoi gorfod newid ysgol plant ar ôl iddynt golli misoedd o ysgol yn barod, neu'n rhoi digon o amser i wneud trefniadau ar gyfer newid lle bo hynny'n angenrheidiol neu'n ddymunol ar ôl i blentyn ymgynefino â'i amgylchedd ysgol arferol.

**Nid yw'r Rheoliadau'n cael unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar blant na'u hawliau.**

**I grynhoi, mae cynyddu sicrwydd deiliadaeth a'r cyfnod sydd gan denantiaid i ddod o hyd i lety fforddiadwy ac addas pan fyddant yn gorfod symud, hyd yn oed os mai cynyddu dros dro sy'n cael ei wneud, yn bwysig o ran cefnogi sefydlogrwydd a lleihau ar yr amhariad y gall dod o hyd i lety newydd ar fyr rybudd ei achosi i deuluoedd, gan gynnwys i blant sydd eisoes wedi wynebu cryn dipyn o amhariad.**

Mae natur frys y Rheoliadau'n golygu nad oedd amser i gynnwys plant a phobl ifanc wrth eu datblygu.

## **2. Esboniwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Bydd y Rheoliadau'n cefnogi erthyglau canlynol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn benodol:

**Erthygl 2 – Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, crefydd, galluoedd, beth bynnag a feddylia neu a ddywed a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.**

Bydd y Rheoliadau'n fuddiol i deuluoedd â phlant sy'n byw yn y sector cymdeithasol cofrestredig a'r sector rhentu preifat, beth bynnag fo'u cefndir. Fodd bynnag, i grwpiau sy'n cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sectorau hyn, fel teuluoedd mewn aelwydydd incwm isel, bydd y buddion yn uwch ar gyfartaledd. Mae'n bosibl bod teuluoedd â phlant anabl yn ei chael hi'n

anoddach, ar gyfartaledd, dod o hyd i lety amgen addas, ac mae'n bosibl y bydd y Rheoliadau'n cael effaith fuddiol benodol arnynt.

#### **Erthygl 4 – Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.**

Bydd y cyfnodau hysbysu hwy a fydd yn ofynnol drwy'r Rheoliadau hyn yn helpu i sicrhau bod hawliau plant mewn teuluoedd sy'n byw yn y sector cymdeithasol cofrestredig a sector rhentu preifat yn cael eu diogelu.

#### **Erthygl 27 – Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ymateb i'w hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai Llywodraethau helpu teuluoedd na allant fforddio i ddarparu hyn.**

Bydd y cyfnodau hysbysu hwy yn helpu teuluoedd â phlant i osgoi cael eu troi allan i ddigartrefedd neu gael eu gorfodi i symud i lety anaddas neu lai fforddiadwy. Pe bai un o'r sefyllfaoedd hyn yn digwydd, byddai safon byw ac ansawdd bywyd plentyn yn debygol o ddirywio mewn ffordd a fyddai'n niweidiol i'w lesiant corfforol a meddyliol. Dylai'r amser ychwanegol y mae cyfnod hysbysu hwy yn ei ddarparu alluogi'r teulu i aros yn eu cartref (drwy roi rhagor o amser i ad-dalu ôl-ddyledion rhent, er enghraifft), neu roi cyfle i'r teulu ddod o hyd i lety amgen mwy addas.

#### **Erthygl 28 – Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.**

Dylai'r cyfnodau hysbysu hwy roi siawns uwch i deuluoedd sy'n rhentu o aros yn eu cymuned leol, gan ganiatáu i blant barhau i fynychu'r un ysgol pan fyddant yn dychwelyd yn yr hydref (yn amodol ar y cyfraddau heintio). Bydd hyn yn osgoi'r amhariad mae symud ysgol yn gallu ei gael ar addysg plentyn a'r sgileffeithiau ar ganlyniadau academaidd, pan fydd plant eisoes wedi wynebu cryn amhariad ar yr agwedd ysgol ac agweddau eraill ar eu bywyd o ganlyniad i'r pandemig.

#### **Erthygl 30 – Mae gan bob plentyn hawl i ddysgu ac i ddefnyddio iaith ac arferion eu teulu, p'un ai a ydynt yn gyffredin â'r mwyafrif yn y wlad ai peidio.**

Mae'n bosibl y bydd galluogi teuluoedd â phlant i aros yn eu cymuned leol yn bwysig o ran caniatáu i blant ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teulu. Mae'n bosibl y bydd plant o deuluoedd Cymraeg eu hiaith, sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg yn wynebu anawsterau penodol os nad ydynt yn gallu aros yn eu cymuned leol, neu os yw'r mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfyngedig yn yr ardal maen nhw'n symud iddi.